

# Cost-effeithiolrwydd gwasanaethau bywyd ar ôl strôc ac effaith y gwasanaethau hyn ar faint o adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol a ddefnyddir

Tachwedd 2024

Cynhaliwyd yr adolygiad gan Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau

## Cyfranwyr yr Adroddiad

### Tîm Adolygu

Kalpa Pisavadia, Bethany Fern Anthony, Jacob Davies, Sofie Roberts, Rachel Granger, Llinos Haf Spencer, Elizabeth Gillen, Juliet Hounsome, Jayne Noyes, Deborah Fitzsimmons, and Rhiannon Tudor Edwards

### Cyngor Methodolegol

Ruth Lewis

### Tîm y Ganolfan Dystiolaeth

Adrian Edwards, Ruth Lewis, Alison Cooper, Micaela Gal a Elizabeth Doe yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, adolygu adroddiadau a golygu.

### Partner Cyhoeddus

Robert Hall

Angela Contestabile, Heidi James, Lynn Preece, Llinos Wyn Parry, Katie Chappelle, Jonathan Hewitt.

Adolygiad wedi'i gyflwyno i'r Ganolfan Dystiolaeth: 30 Hydref 2023

Cyfarfod ymgynghori â Rhanddeiliad: 29 Ebrill 2024

Adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi gan y Ganolfan Dystiolaeth: Tachwedd 2024

Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel: Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Cost-effeithiolrwydd gwasanaethau bywyd ar ôl strôc ac effaith y gwasanaethau hyn ar faint o adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol a ddefnyddir (RR0027) Tachwedd 2024

**Ymwadiad:** Safbwyntiau'r awduron sy'n cael eu mynegi yn y cyhoeddiad hwn, nid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau

# Cost-effeithiolrwydd gwasanaethau bywyd ar ôl strôc ac effaith y gwasanaethau hyn ar faint o adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol a ddefnyddir

Rhif yr adroddiad RR0027 (Tachwedd 2024)

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae ein Hadolygiadau Cyflym (RR) yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon gan gadw golwg ar ragfarn ar yr un pryd.

### Ar gyfer pwy mae'r Adolygiad Cyflym hwn?

Cynhaliwyd yr Adolygiad Cyflym hwn yn rhan o Raglen Waith Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Awgrymwyd cwestiwn yr adolygiad gan gynrychiolwyr o Gymdeithas Strôc y DU. Caiff y dystiolaeth ei defnyddio i helpu i gyflwyno dadl ynghylch a fyddai buddsoddi mewn gwasanaethau bywyd ar ôl strôc yng Nghymru yn lleihau'r baich o ran cost ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

### Cefndir/Nod yr Adolygiad Cyflym

Mae dros 100,000 o achosion o strôc yn y DU bob blwyddyn, a disgwylir i hyn gynyddu i dros 2.1 miliwn erbyn 2035. Mae tua 70,000 o bobl sydd wedi goroesi strôc yn byw yng Nghymru. Mae gwasanaethau bywyd ar ôl strôc yn defnyddio dull cyfannol ac anfeddygol o helpu pobl i fyw'n dda ar ôl cael strôc, ac mae'n ategu camau adsefydlu. Mae gwasanaethau bywyd ar ôl strôc yn cynnwys gwasanaethau sy'n ceisio cynorthwyo cyflwr corfforol ac emosiynol pobl. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn yn ymwneud yn benodol â chyfathrebu a rhoi chymorth emosiynol. Maent yn cynnig cyfarpar a gwybodaeth, tawelwch meddwl, hyfforddiant a chymorth gan eraill sydd mewn sefyllfaoedd tebyg. Nod yr adolygiad cyflym oedd amlygu tystiolaeth am gost-effeithiolrwydd y gwasanaethau bywyd ar ôl strôc, ac effaith yr ymyriadau hyn ar faint o adnoddau iechyd neu ofal cymdeithasol a ddefnyddir.

### Canlyniadau'r Adolygiad Cyflym

Y sylfaen dystiolaeth:

- Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth o astudiaethau a gyhoeddwyd rhwng mis Ionawr 2000 a mis Awst 2024 (pan gynhaliwyd y chwiliadau).
- Ymhlith y 12 astudiaeth a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad, gwerthusiadau economaidd oedd saith ohonynt, ac roedd pump yn hapdreialon rheoledig.
- Fe asesodd y saith gwerthusiad economaidd yr ymyriadau canlynol: adnodd asesu anghenion i ofalwyr (Patchwood et al, 2021); hyfforddiant i ofalwyr (Forster et al, 2013); rhaglen ailintegreiddio ymarfer corff ac addysg i oroswyr strôc a'u teuluoedd (Harrington et al, 2010), Rhaglen Rheoli Unigol yn y gymuned i oroswyr strôc (Orman et al, 2024); gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith a chymorth cyfunol i oroswyr strôc a'u teuluoedd (van der Gaag a Brooks, 2008); cyfeillio goroeswyr strôc (Flood et al, 2022), ac asesiad strwythuredig o'r hyn sy'n digwydd ar ôl gadael yr ysbyty (Forster et al, 2015).
- Roedd dau o'r hapdreialon rheoledig yn werthusiadau economaidd rhannol a edrychodd ar ddata am gost a'r defnydd o adnoddau. Edrychodd yr astudiaethau hyn ar yr ymyriadau canlynol yn benodol: hyfforddi gofalwyr (Kalra et al, 2004); ac ymyriad celfyddydol ac ar sail iechyd (Ellis-Hill et al, 2019).
- Edrychwyd ar y defnydd o adnoddau yn y tri hapdreial rheoledig arall, ond nid data am y gost. Aseswyd ymyriadau cymorth teuluol (Mant et al, 2000; Tilling et al, 2005), ac ymyriad teleiechyd a gynlluniwyd i gynorthwyo goroeswyr strôc a'u gofalwyr (Bishop et al, 2014).

### *Prif ganfyddiadau:*

- Amlygodd yr adolygiad hwn na chynhelir digon o dreialon sy'n gwerthuso cost-effeithiolrwydd bywyd ar ôl strôc fel gwasanaeth cynhwysfawr. Mae hyn yn arbennig o wir pan mae gwasanaeth yn cael ei gyflwyno'n bwrpasol mewn fformat holistig sy'n cynnwys nifer o gydrannau. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad dystiolaeth am gost-effeithiolrwydd a'r defnydd a wneir o ymyriadau penodol o fewn y gwasanaethau hyn sy'n cynorthwyo goroeswyr strôc a gofalwyr fel ei gilydd.
- Roedd Rhaglen Reoli Unigol gynhwysfawr yn y gymuned i oroeswyr strôc yn gost-effeithiol o safbwynt cymdeithasol, 24 mis yn ddiweddarach.
- Nodwyd cysylltiad rhwng ymyriad i hyfforddi gofalwyr, a ddarparwyd pan oedd y claf a gafodd strôc yn yr ysbyty, â defnyddio llai o adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol pan gaiff ei werthuso mewn un ysbyty. Fodd bynnag, nid oedd yr ymyriad hwn yn gost-effeithiol wrth ei gyflwyno a'i asesu ar draws sawl ysbyty.
- Daeth i'r amlwg nad oedd ychwanegu system newydd ar ôl gadael yr ysbyty at wasanaeth Cydlynwyr Gofal Strôc cymunedol presennol yn gost-effeithiol o safbwynt iechyd neu gymdeithasol.
- Nid oedd defnyddio Adnodd Asesu Anghenion Cymorth i Ofalwyr (CSNAT) yn gost-effeithiol o'i gymharu â gofal arferol.
- Roedd cyfuniad o therapi lleferydd ac iaith a gwasanaethau cymorth gwirfoddol yn costio llai fesul sesiwn o'i gymharu â therapi lleferydd ac iaith y GIG yn unig.
- Daeth i'r amlwg fod cyfeillio goroeswyr strôc yn fwy costus ac yn llai effeithiol na'r gofal arferol yn unig.
- Roedd cysylltiad rhwng ymyriadau gan drefnwyr cymorth i deuluoedd ar gyfer goroeswyr strôc a gofalwyr, a defnyddio llai o ofal iechyd, fel cyswllt ffisiotherapi. Fe arweiniodd ymyriad gan grŵp celfyddydol ac iechyd yn y gymuned at fwy o gysylltiadau â chleifion allanol a mwy o gysylltiadau â gweithwyr gofal cartref o'u cymharu â'r ymyriadau gofal arferol.
- Roedd ymyriad ymarfer corff ac addysg cyfun yn y gymuned yn costio mwy fesul claf na chost y grŵp rheoli.

### **Goblygiadau Polisi ac Ymarfer**

- Er i'r adolygiad hwn ganolbwyntio ar dystiolaeth o gost-effeithiolrwydd a sut y defnyddir adnoddau, sy'n ddefnyddiol yng nghyd-destun dyrannu adnoddau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol, rhaid i benderfyniadau sy'n ymwneud â pholisi ac ymarfer ystyried sail ehangach y dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd clinigol a dewisiadau cleifion wrth edrych i'r dyfodol.
- Mae cysylltiad rhwng cymorth teuluol i oroeswyr strôc a gofalwyr, a defnyddio llai o ofal iechyd. Gall defnyddio llai o adnoddau arwain at arbedion cost a rhoi llai o faich ar y GIG. Fodd bynnag, gall defnyddio mwy o ofal iechyd a gofal cymdeithasol fod yn briodol hefyd o ganlyniad i gyfeirio neu adnabod anghenion pobl yn well.

### **Goblygiadau Ymchwil a Bylchau mewn Tystiolaeth**

- Er mwyn deall effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd ymyriadau bywyd ar ôl strôc yn llawn, mae angen ymchwil i asesu effeithiau hirdymor posibl.
- Mae angen tystiolaeth am ba mor gost-effeithiol yw cynorthwyo goroeswyr strôc i ddychwelyd i'r gweithlu.
- Yn ôl pob golwg, roedd amseriad yr ymyriadau bywyd ar ôl strôc yn bwysig o ran sut mae goroeswyr strôc, eu gofalwyr a'u teuluoedd yn eu derbyn.
- Roedd diffyg amrywiaeth ethnig mewn sawl un o'r samplau yn yr astudiaethau o dan sylw. Mae angen strategaethau ar dreialon strôc i wneud yn siŵr bod mynediad teg, o gofio bod cyfran fawr o'r rhai sy'n mynd i'r ysbyty ar ôl cael strôc yn y DU yn dod o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021).

## **Ystyriaethau Economaidd**

- £45,409 yw faint mae pob goroeswr strôc yn y DU yn y ei gostio ar gyfartaledd yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cael strôc. Gofal anffurfiol a chostau colli cynhyrchiant yw prif achosion y costau hyn. Gallai cymorth ôl-strôc priodol ac amserol i oroeswyr strôc, eu teuluoedd a/neu'r rhai sy'n rhoi gofal, helpu i leihau'r effaith economaidd hon.
- Mae achosion o strôc yn costio £220 miliwn i GIG Cymru bob blwyddyn. Wrth ystyried y gost economaidd gymdeithasol ehangach, mae'r ffigur hwn yn codi i £1.6 biliwn y flwyddyn. Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau heb unrhyw gamau'n cael eu cymryd, rhagwelir y bydd y gost yn cynyddu i £2.8 biliwn y flwyddyn erbyn 2035.

[Darllenwch yr adroddiad llawn](#)

## Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Mae ein timau ymroddedig yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd, gofal cymdeithasol, sefydliadau ymchwil a'r cyhoedd i ddarparu ymchwil hanfodol i fynd i'r afael â heriau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n wynebu Cymru.

Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Ganolfan Dystiolaeth yn ateb cwestiynau allweddol i wella polisi a darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Ynghyd â'n partneriaid cyd-weithio, rydym ni'n cynnal adolygiadau o dystiolaeth bresennol ac ymchwil newydd, i lywio anghenion polisi ac ymarfer, gan ganolbwyntio ar sicrhau budd y byd go iawn a budd cyhoeddus sy'n cyrraedd pawb.

Cyfarwyddwyr: Yr Athro Adrian Edwards

Cyfarwyddwyr Cyswllt Dr Alison Cooper, Dr Natalie Joseph-Williams, Dr Ruth Lewis



@tystiolaethcym



healthandcareevidence@cardiff.ac.uk



[www.researchwalesevidencecentre.co.uk/cy](http://www.researchwalesevidencecentre.co.uk/cy)